Mae ein hymateb fel a ganlyn, gan fabwysiadu eich rhifo.

1. Chwech gan gynnwys ymddiswyddiadau, symudiadau o fewn Comisiwn y Cynulliad ac ymddeoliadau. Mae hyn yn cynnwys staff cyfreithiol a rhai nad ydynt yn staff cyfreithiol.

   Yn 2012, roedd un ar ddeg o aelodau staff parhaol yn y Gwasanaethau Cyfreithiol; ar hyn o bryd mae yna bymtheg.

2. Cyflwynwyd llai na thair o gwynion yn y cyfnod hwn.

   Rydym o'r farn y byddai datgelu rhagor o wybodaeth yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

3. Ers 2012, cynhaliwyd un ymchwiliad i gamreoli a/neu fwlio gan uwch aelodau o'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

   Rydym o'r farn y byddai datgelu rhagor o wybodaeth yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

4. Rydym o'r farn y byddai datgelu rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r cais hwn yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

5. Cafodd rhai pryderon eu codi yn ystod y cyfnod hwn. Ar bob achlysur, rhoddwyd cyngor, cymorth ychwanegol neu atebion ymarferol. Rydym o'r farn y byddai datgelu rhagor o wybodaeth yn groes i'r egwyddor diogelu data gyntaf fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Data 1998. Felly, mae'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae manylion pellach am y rhesymeg sydd y tu ôl i'r casgliad hwn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

